

Canllaw i athrawon ar gyfer yr adnoddau *Gweithredu*

Mae'r adnoddau *Gweithredu* dan sylw yn galluogi disgyblion i feddwl sut wnaeth Oxfam a chymunedau lleol weithredu i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr.

Wedi iddynt wneud hynny, byddent yn mynd ati i ystyried sut y bydden nhw'u hunain yn gweithredu er mwyn gwneud gwahaniaeth i gymunedau lle ceir diffyg sicrwydd dŵr. Os nad ydych wedi gwneud yn barod, efallai yr hoffech edrych ar *astudiaeth achos Liberia* yn yr adnoddau *Meddwl* er mwyn darganfod rhagor am brosiect Wythnos Ddŵr diweddar.

Bydd yr arian a godir yn mynd tuag at gefnogi prosiectau WASH (glanweithdra, dŵr a hylendid) Oxfam) ledled y byd, ble bynnag fo'r angen mwyaf. Mae bron i 800 miliwn o bobl yn y byd yn parhau i beidio cael mynediad at ddŵr glan, ac mae 2.5 biliwn heb systemau glanweithdra digonol.*

Ystod oedran: 7 i 14 oed

Amser: 50 i 60 munud

- Beth sydd wedi digwydd yn Niger? 15 i 20 munud
- Cadwyn diffyg sicrwydd dŵr y dosbarth: 25 i 30 munud (dewisol)
- Amser gweithredu! 35 i 40 munud

Amcanion Dysgu


- Deall rôl y cymunedau lle ceir diffyg sicrwydd dŵr ac rôl Oxfam wrth oresgyn problemau dŵr.
- Darganfod pa effaith a gafodd y gwaith gweithredu yng ngwledydd Mali a Niger wedi'r Wythnosau Dŵr blaenorol
- Meddwl yn greadigol a rhannu syniadau gweithredu
- Gosod amcanion, cynllunio a threfnu tasgau
- Gweithredu a gwerthuso.

Y Cwestiynau Allweddol

- Pwy sy'n gwneud y mwyaf o ymdrech i geisio goresgyn diffyg sicrwydd dŵr?
- Pam fod dulliau gweithredu Oxfam yn gweithio fel catalydd?
- Sut mae'r arian a godwyd yn yr Wythnosau Dŵr blaenorol wedi gwneud gwahaniaeth i Oxfam?
- Beth allwn ni ei wneud i ymgyrchu neu i godi arian eleni?

Adnoddau (Sylwch fod y taflenni sydd ar gael i'w llungopio i'w canfod ar ddiwedd y ddogfen hon)

- Sioe sleidiau *Gweithredu**
- Clipiau ffilm *Gweithredu*
- Pum mat chwaraeon neu gylchynau ac ychydig o le i symud
- Tabl *Diffyg Sicrwydd Dŵr yn Niger*
- *Gwybodaeth am wlad Niger – 'Niger: Country Information' (Saesneg yn unig)* (gwelwch yr adnoddau *Dysgu*)
- *'Pupil action guide' (Saesneg yn unig)* - (pdf ar wahân)
- *'Campaigning and Fundraising Information' (Saesneg yn unig)* - (pdfs ar wahân)

 *Sylwch y bydd gwybodaeth newydd yn ymddangos ar rai o'r sleidiau ar ôl i chi glicio. Mae'r cylch glas sydd ar waelod ochr chwith y sgrin yn dangos fod y sleid wedi gorffen llwytho gwybodaeth.

*Source: Water Supply and Sanitation Collaborative Council

Gweithgaredd 1: Beth sydd wedi digwydd yn Niger? (15 i 20 munud)

Edrychwch ar sleidiau rhif 1 i 10 sydd ar y sioe sleidiau Gweithredu.

Mae'r sleidiau dan sylw yn egluro rôl cymunedau lle ceir diffyg sicrwydd dŵr ac elusennau fel Oxfam, a'u gwaith yn goresgyn diffyg sicrwydd dŵr.

Gwylwch y ddau glip ffilm o Niger (Saesneg yn unig)

Mae'r clipiau ffilm dan sylw yn dangos yr effeithiau cadarnhaol o ganlyniad i waith gweithredu blaenorol yr Wythnos Ddŵr yn Niger. Os bydd amser yn brin, dangoswch y clip Niger 2013 yn unig.

Gweithgaredd 2: Cadwyn diffyg sicrwydd dŵr y dosbarth (gweithgaredd dewisol – 25 i 30 munud).

1. Dangoswch sleid rhif 3 o'r sioe sleidiau *Gweithredu* i'r disgyblion unwaith eto, ac eglurwch wrthyn nhw eu bod am lunio cadwyn diffyg sicrwydd dŵr fel dosbarth er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y model yn well.
2. Rhannwch y disgyblion yn 5 grŵp a thrafodwch:
 - Achosion
 - Symptomau
 - Cymunedau lle ceir diffyg sicrwydd dŵr yn gweithredu
 - Oxfam yn gweithredu
 - Effeithiau
3. Gofynnwch i bob grŵp enwi'r hyn a ddigwyddodd yn Niger yn eu rhan nhw o'r gadwyn diffyg sicrwydd dŵr. Efallai yr hoffech edrych ar y *tabl Diffyg Sicrwydd Dŵr yn Niger* (isod) am atebion enghreifftiol, ac edrychwch ar y ddogfen '*Niger: Country Information*' yn yr *adnoddau Dysgu*.
4. Gosodwch y pum mat neu'r cylchynau mewn llinell. Rhowch bob grŵp i eistedd ar fat neu gylchyn ar wahân. Gofynnwch i gynrychiolydd o'r ddau grŵp cyntaf sefyll a dweud yr hyn a oedd yn digwydd yn Niger.
5. Yn awr, fe fydd y dosbarth yn disgwyl i gynrychiolydd o'r grŵp cymunedol diffyg sicrwydd dŵr sefyll, ond, eglurwch wrthyn nhw fod tlodi yn eu rhwystro rhag gweithredu. Gofynnwch i'r disgyblion beth yw'r rheswm am hyn.
6. Yn awr, gofynnwch i gynrychiolydd o'r grŵp Oxfam ddatgan eu camau gweithredu. Eglurwch wrthyn nhw fod dulliau gweithredu Oxfam yn gweithio fel catalydd, gan eu bod yn gwneud i bethau ddigwydd yn gynt, yn ddidrafferth ac yn fwy effeithiol. Dangoswch sleid 4 o'r sioe sleidiau *Gweithredu* i'r disgyblion unwaith eto. Mae'n bosib yr hoffech gysylltu'r sleid hon ag arbrofion gwyddonol. Neu, defnyddiwch gymhariaeth o ddarparu beic i rywun sydd fel arfer yn cerdded pum milltir i'r gwaith. Mae'r beic yn gwneud ei daith yn haws.
7. Yn awr, gadewch i gynrychiolydd o'r grŵp cymunedol lle ceir diffyg sicrwydd dŵr sefyll ac egluro eu hengerffftiau gweithredu.

8. Gofynnwch i gynrychiolydd y grŵp effeithiau i nodi effaith y gwaith hwn i oresgyn diffyg sicrwydd dŵr ar y gymuned.
9. Yn olaf, gofynnwch i'r disgyblion ddweud pwy yn eu barn nhw wnaeth fwyaf i geisio goresgyn y broblem ddŵr yn Niger (yr ateb cywir: y gymuned lle ceir diffyg sicrwydd dŵr).

Os bydd amser, gofynnwch i'r disgyblion ailadrodd y broses o ran beth sydd ar y gweill ar gyfer prosiect dŵr Oxfam yn Liberia. Bydd hyn yn cynorthwyo'r disgyblion i weld sut bydd eu cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth er gwell i sefyllfa lle ceir ddiffyg sicrwydd dŵr.

Gwahaniaethu

Symleiddio: rhwng dabl *Diffyg Sicrwydd Dŵr yn Niger* i'r disgyblion.

Mwy heriol: gofynnwch i'r disgyblion lunio cadwyn Diffyg Sicrwydd Dŵr eu hunain ar gyfer cynlluniau gweithredu Oxfam i adeiladu pypiau dŵr a thoiledau yn ysgolion Niger.

Gweithgaredd 3: Amser gweithredu! (35 i 40 munud)

Edrychwch ar sleidiau 10-12 o'r sioe sleidiau Gweithredu

Mae'r sioe sleidiau dan sylw yn dangos sut gall y disgyblion weithredu yn eu ffordd eu hunain yn yr Wythnos Ddŵr, drwy ddefnyddio enghreifftiau gweithredu a ddefnyddiwyd gan ysgolion mewn Wythnosau Dŵr blaenorol.

1. Dilynwch y cyfarwyddiadau sydd ar y daflen *Pupil Action Guide (Saesneg yn unig)* ac yna gofynnwch i'r grwpiau lenwi eu taflen gynllunio gweithredoedd eu hunain - '*Pupil Action Plan Sheet*' (*Saesneg yn unig*) ar dudalen 4.
2. Yn awr bydd angen i'r disgyblion weithredu ar y syniadau sydd ganddyn nhw. Darperir arweiniad a syniadau yn y dogfennau '*Campaigning and Fundraising Guides*.
3. Bydd y disgyblion angen eich cymorth a'ch cefnogaeth chi wrth gynllunio a rhoi eu gweithredoedd Wythnos Ddŵr ar waith, er enghraifft wrth gysylltu â'r pennaeth, ymwelwyr a'r papurau newydd.

Y camau nesaf

Ar ôl y digwyddiad, gofynnwch i'r disgyblion werthuso eu gweithredoedd drwy lenwi *tafleni adolygu worksheets* (t5 o'r '*Pupil Action Guide*' – *Saesneg yn unig*).

Dychwelwch unrhyw arian a godwyd i Oxfam. Anfonwch unrhyw ganiau dŵr 'Gall dŵr newid bywydau' at eich AS. Os oes modd i chi anfon eich lluniau a'ch manylion mewn e-bost yn sôn am eich gweithgareddau yn ystod yr Wythnos Ddŵr i waterweek@oxfam.org.uk gallai eich ysgol ymddangos ar wefan Addysg Oxfam. Er mwyn defnyddio lluniau o ddisgyblion o dan 18 oed, mae'n rhaid i ni gael caniatâd gan eu rhieni.

Rhestr termau ar gyfer y clipiau ffilm **Gweithredu**

Mae'r rhestr termau yn cynnwys rhestr o eiriau a diffiniadau a ddefnyddiwyd yn y clipiau ffilm. Mae diffiniadau'n berthnasol i'r cyd-destun lle defnyddir y geiriau.

Isadeiledd a Diffyg Sicrwydd Dŵr: Niger

- **Irrigation** - *dyfrhau*: cloddio sianeli a ffosydd i roi cyflenwad o ddŵr i gaeau
- **Drought** - *sychder*: prinder dŵr glaw difrifol dros amser maith
- **Climate Change** - *newid yn yr hinsawdd*: newidiadau yn nymheredd a thywydd y ddaear dros amser maith

Diffyg Sicrwydd Dŵr yn Niger

Rhesymau dros ddiffyg sicrwydd dŵr	Symptomau o ddiffyg sicrwydd dŵr	Oxfam yn gweithredu	Cymunedau diffyg sicrwydd dŵr yn gweithredu	Effeithiau
Newid yn yr hinsawdd	Dim digon o ddŵr i dyfu bwyd	Ymgyrchoedd yn gofyn i lywodraethau leihau eu hallyriadau carbon yn y gwledydd cyfoethocach.	Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cymunedol a mynd ar ddiwrnodau hyfforddiant	Galluogi pobl i dyfu rhagor o fwyd.
Tlodi	Nid oes gan bobl ddigon o fwyd i fwyta diet maethlon	Ymgyrchoedd yn gofyn i lywodraethau ddarparu isadeiledd dŵr megis systemau dyfrhau	Adeiladu a chynnal systemau dyfrhau	Mae'r ffermwyr, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn cael gwell maeth
Sychder	Nid oes gan bobl ddigon o gnydau dros ben i werthu a gwneud arian ychwanegol i dalu am gostau addysg, neu i brynu dillad a moddion.	Codi arian i dalu am ddulliau dyfrhau gwell ynghyd ag hyfforddiant, offer a hadau reis sy'n rhoi llawer o gynnyrch	Plannu cnydau, chwyn a chnydau dŵr gan ddefnyddio'r system ddyfrhau newydd.	Galluogi'r ffermwyr a'u teuluoedd i dyfu digon o fwyd, a rhywfaint yn ychwanegol i'w werthu a gwneud arian.
			Rhannu gwybodaeth am arferion dyfrhau a ffermio newydd gydag eraill	Gall yr arian a godwyd gael ei ddefnyddio i dalu ffioedd ysgol, deunyddiau a gwisg ysgol, ac i brynu dillad a moddion